# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Ebrill 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

# 130(v7)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip (ynghylch ei chyfrifoldebau polisi)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru)

(45 munud)

## Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69

Leanne Wood: Ymosodiadau awyr gan y DU yn Syria

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 4 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

(20 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth:**

**Neil McEvoy (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am rôl Llywodraeth Cymru yn y cynnig arfaethedig i ailenwi'r ail bont Hafren yn bont Tywysog Cymru?

## 6 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 7 Dadl ynghylch adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?

(60 munud)

**NDM6704 David Rees (Aberafan)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, 'Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Chwefror 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 12 Ebrill 2018.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Adroddiad ymchwiliad yr Ysgrifennydd Parhaol

(30 munud)

**NDM6702 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, dyddiedig 16 Mawrth, mewn perthynas â chynnig NDM6668 y cytunwyd arno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Chwefror 2018.

2. Yn gresynu at fethiant yr Ysgrifennydd Parhaol i gydymffurfio â dymuniadau Aelodau'r Cynulliad.

3. Gan weithredu yn unol ag Adran 37(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ei gwneud yn ofynnol bod Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yn paratoi, at ddibenion y Cynulliad, gyda golygiadau priodol i sicrhau bod tystion yn aros yn anhysbys, adroddiad yr ymchwiliad ynghylch a oedd unrhyw dystiolaeth y rhannodd Llywodraeth Cymru wybodaeth o flaen llaw heb ganiatâd mewn perthynas â'r ad-drefnu Gweinidogol diweddar.

ITV Cymru - Leak inquiry clears First Minister - 25 Ionawr 2018 (Saesneg yn unig)

Wales Online - Outside the headlines: Politics updates from Cardiff Bay, Westminster and our town halls - 25 Ionawr 2018 (Saesneg yn unig)

Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol at bob Aelod Cynulliad - 16 Mawrth 2018

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1.

## 9 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Cynllun gweithlu ysgolion cenedlaethol

(30 munud)

**NDM6703** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r argyfwng cynyddol o ran recriwtio athrawon mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

2. Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon hyd yma i fynd i'r afael ag achosion hyn.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu cynllun gweithlu ysgolion cenedlaethol i Gymru, er mwyn:

a) dileu rhwystrau diangen i recriwtio athrawon a hyfforddwyd dramor;

b) cydnabod sgiliau athrawon profiadol a llwyddiannus sy'n gweithio mewn colegau addysg bellach, ac mewn ysgolion annibynnol a cholegau, drwy roi statws athrawon cymwysedig iddynt; ac

c) sefydlu llwybrau i addysgu ar gyfer cynorthwywyr cymorth addysgu profiadol yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Julie James (Gorllewin Abertawe)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn nodi gwaith parhaus Llywodraeth Cymru i ddatblygu proffesiwn addysg o ansawdd uchel a denu'r goreuon i addysgu yng Nghymru, gan gynnwys:

a) diwygio a chryfhau Addysg Gychwynnol i Athrawon;

b) cymhelliannau wedi'u targedu ar gyfer graddedigion o ansawdd uchel mewn pynciau â blaenoriaeth ac addysg cyfrwng Cymraeg;

c) ymgyrch recriwtio ddigidol barhaus wedi'i thargedu'n fanwl;

d) sefydlu'r Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol; a

e) sefydlu Bwrdd Cynghori Recriwtio a Chadw Athrawon.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1:

Yn nodi ffigyrau National Education Union Cymru sy’n dangos bod dros 50,000 y flwyddyn o ddyddiau gwaith yn cael eu colli gan athrawon oherwydd salwch sy’n ymwneud a straen a bod 33.6 y cant o’r athrawon ysgol a wnaeth ymateb i arolwg gweithlu addysg cenedlaethol Cyngor y Gweithlu Addysg yn bwriadu gadael eu proffesiwn yn ystod y tair blynedd nesaf.

Datganiad i'r Wasg National Education Union Cymru, 'New Education Minister Must Tackle Stress' - 25 Gorffennaf 2016

Arolwg Gweithlu Addysg Cenedlaethol Cyngor y Gweithlu Addysg

## 10 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig – Ymgyrch y grŵp Women Against State Pension Inequality

(60 munud)

**NDM6697** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi ac yn croesawu ymgyrch y grŵp Women Against State Pension Inequality (WASPI) i gael trefniadau pensiwn gwladol trosiannol teg ar gyfer yr holl fenywod a anwyd yn y 1950au y mae newidiadau i ddeddfwriaeth pensiwn y wladwriaeth yn effeithio arnynt.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i ddarparu'r hyn a ganlyn i'r holl fenywod a anwyd yn y 1950au y mae newidiadau i ddeddfwriaeth pensiwn y wladwriaeth yn effeithio arnynt:

a) pensiwn pontio sy'n cyflenwi incwm hyd at oedran pensiwn y wladwriaeth, nad yw'n ddarostyngedig i brawf modd;

b) iawndal am absenoldeb pensiwn pontio i'r rhai sydd eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth;

c) iawndal i bawb sydd heb ddechrau cael pensiwn pontio erbyn dyddiad priodol, a fyddai'n ddigon i adennill llog ariannol a gollwyd; a

d) iawndal i fuddiolwyr ystadau'r rhai sydd wedi marw a heb gael pensiwn pontio.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn gresynu at ddiffyg gweithredu Llywodraeth y DU i roi terfyn ar yr anghyfiawnder a ddioddefir gan fenywod y mae'r newidiadau i ddeddfwriaeth pensiwn y wladwriaeth yn effeithio arnynt.

**Gwelliant 2.** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Ym mhwynt 2, dileu "weithio gyda" a rhoi "annog" yn ei le.

## 11 Dadl Frys

(60 munud)

Leanne Wood: Ymosodiadau awyr gan y DU yn Syria

## 12 Cyfnod Pleidleisio

## 13 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6701** Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

Sepsis - y cameleon

Beth yw sepsis, sut yr ydym yn adnabod y symptomau, sut yr ydym yn ei drin, a beth y gallwn ei wneud i arbed mwy o fywydau?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Ebrill 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 11/04/2018 i'w hateb ar 18/04/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

**David Melding** *Canol De Cymru*

**1** OAQ51998

Pa gyllid ychwanegol y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei ddarparu i'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi pobl sydd mewn dyled?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**2** OAQ51976

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am weithredu'r trethi datganoledig newydd cyntaf ers iddynt ddod i rym ar 1 Ebrill 2018?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**3** OAQ52006

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ymrwymiadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwariant mewn perthynas â'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**4** OAQ51987

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol am beth fydd yn cymryd lle arian strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru yn dilyn Brexit?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**5** OAQ52000

Sut y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn sicrhau y bydd arian a godir gan y ddwy dreth ddatganoledig newydd yn cyfrannu tuag at fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn y dyfodol?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**6** OAQ51993

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y cynnydd mewn trethi cyngor ar drigolion Gorllewin De Cymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

**7** OAQ51974

Beth yw'r goblygiadau posibl ar gyfer penderfyniadau ariannu Llywodraeth Cymru o'r gostyngiad yng nghyllidebau'r heddlu gan Lywodraeth y DU?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**8** OAQ51994

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyrannu arian i'r portffolio addysg?

**Hefin David** *Caerffili*

**9** OAQ51989

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ryddhad ardrethi busnes i fusnesau bach a chanolig yn 2018-19?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**10** OAQ51968

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyraniad cyffredinol y gyllideb i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**11** OAQ51982

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddyrannu arian i'r portffolio llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**12** OAQ51995

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r broses ar gyfer cyfrifo faint o arian a ddyrennir i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi gwasanaethau brys?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**13** OAQ52004

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru i newid cyfraddau treth yng Nghymru?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

**14** OAQ51991

Pa gyllid ychwanegol y bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn ei ddyrannu i'r portffolio addysg i gefnogi disgyblion o deuluoedd incwm is?

## Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**1** OAQ51977

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am argaeledd derbyniad ffôn symudol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

**2** OAQ51970

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi adroddiad ar hynt cynllun gweithredu digidol Llywodraeth Cymru?

**Jane Hutt** *Bro Morgannwg*

**3** OAQ51978

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 dair blynedd ers ei chymeradwyo?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**4** OAQ52009

Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran gweithredu ei pholisi ar geiswyr lloches a ffoaduriaid?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**5** OAQ52007

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cynrychiolaeth menywod mewn diwydiant?

**Leanne Wood** *Rhondda*

**6** OAQ52008

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cysylltedd rhyngrwyd symudol yn y Rhondda?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**7** OAQ51988

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am ymdrechion Llywodraeth Cymru i sicrhau diogelwch menywod yng Nghymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

**8** OAQ51999

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am ddarpariaeth band eang yng Nghanol De Cymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**9** OAQ51971

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau ei bod yn bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 o ran mynediad ar gyfer disgyblion anabl?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**10** OAQ51985

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am y cynllun gweithredu i wella cysylltedd ffonau symudol?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**11** OAQ52002

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiect olynol Cyflymu Cymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**12** OAQ51980

Tynnwyd yn ôl

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Arweinydd y Tŷ ddatganiad am gamau nesaf Llywodraeth Cymru i gyflwyno band eang dibynadwy cyflym?

**David Rees** *Aberafan*

13 OAQ51986

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Aberafan?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

14 OAQ51984

A wnaiff Arweinydd y Tŷ roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y broses gaffael ar gyfer cynllun olynol Cyflymu Cymru?

## Comisiwn y Cynulliad

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

1 OAQ51992

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran dileu eitemau plastig untro o ystâd y Cynulliad?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

2 OAQ51973

A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am y ffyrdd y mae Cynulliad i cyfathrebu â'r cyhoedd yng Nghymru?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3 OAQ51979

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa waith y mae’r Comisiwn yn ei wneud i leihau allyriadau carbon?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

4 OAQ52003

A wnaiff y Comisiynydd ddatganiad am y trefniadau ar gyfer rheoli asbestos ar ystâd y Cynulliad?